

Tlodi yng Nghymru 2018

Mae'r briff hwn yn crynhoi sut mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn newid, ac mae'n rhan o brosiect blynyddol JRF i fesur cyfraddau a thueddiadau tlodi ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r briff yn cyd-fynd â Thlodi yn y Deyrnas Unedig 2017, sy'n edrych ar dueddiadau tlodi yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Uned Ddadansoddi JRF, Helen Barnard, Pennaeth Dadansoddi

Beth sydd angen i chi ei wybod

- Mae'r gyfran o gartrefi yn byw mewn tlodi incwm yng Nghymru wedi gostwng yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, yn arbennig ymysg pensiynwyr a rhieni unigol, ond mae'n parhau i fod yn uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Yn y cyfnod o dair blynedd 1994/97, roedd 27% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi, o gymharu â 23% ar gyfer y blynyddoedd diwethaf.
- Mae tlodi ymysg pensiynwyr yng Nghymru wedi gostwng, ond o lai nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn 1994/97, roedd tlodi pensiynwyr, wedi costau tai (AHC), yn debyg i Loegr ac yn is na'r Alban; erbyn 2013/16 roedd â'r gyfradd uchaf oll ymysg Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mae tlodi ymysg cyplau gyda phlant wedi bod yn codi ers 2003/06.
- Cafwyd cynnydd da yng Nghymru ar dri ysgogydd pwysig tlodi oed gwaith: mae diweithdra wedi gostwng cyfraddau cyflogaeth wedi codi a sgiliau oedolion wedi gwella. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wedi cyflawni lleihad mewn tlodi ac mae'r risg o dlodi wedi cynyddu ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio a di-waith.
- Ysgogwyr cynnydd mewn tlodi ar draws y wlad yw lleihad mewn budd-daliadau oed gwaith, costau byw cynyddol (yn arbennig ar gyfer tai) a gwaith o ansawdd isel.
- Yng Nghymru, mae 39% o oedolion anabl mewn tlodi, o gymharu â 22% o bobl abl. Mae'r gyfradd tlodi ymysg pobl anabl yng Nghymru'r uchaf yn y Deyrnas Unedig.
- Mae cyrhaeddiad addysgol ymysg plant o gefndiroedd incwm is wedi bod yn dal i fyny'n raddol ers 2010 gyda'r rhai o aelwydydd mwy cefnog, ond mae'r rhai o deuluoedd incwm isel yn parhau i fod yn llawer llai tebygol o adael ysgol gyda chymwysterau da, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael swydd a fydd yn eu galluogi i osgoi tlodi fel oedolion.
- Mae'r rhan fwyaf o'r rhai yn y pumed tlotaf yng Nghymru ddim yn cynilo pensiwn, gan gynyddu eu risg o dlodi yn y dyfodol.

Cyfraddau tlodi yng Nghymru


Tlodi yw pan fydd adnoddau rhywun yn llawer is na'u hisafswm anghenion, gan gynnwys yr angen i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae mesur tlodi yn gywir yn anodd, gyda'r rhan fwyaf o fesurau yn darparu golwg rhannol yn unig. Y prif ddangosydd tlodi a ddefnyddir trwy gydol yr adroddiad hwn yw pan fydd rhywun yn byw mewn aelwyd sydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol, wedi ei addasu ar gyfer maint a math yr aelwyd, ac wedi costau byw (AHC). Dyma'r mesur a ddefnyddir amlaf yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at fesurau eraill ble mae'r rhain yn darparu gwybodaeth arbennig o bwysig nad yw'n cael ei gipio yn y dangosydd pennawd.

Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl dros 20 mlynedd, yn archwilio'r tueddiadau mewn tlodi a materion cysylltiedig yng Nghymru, ac yn cymharu'r rhain i'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Oherwydd meintiau sampl bychan ar gyfer pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn nifer o'r arolygon aelwydydd a ddefnyddir yn y math yma o ddadansoddiad, mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfartaledd tair blynedd yn hytrach na data ar gyfer blynnyddoedd unigol, yn arbennig parthed cyfraddau incwm a thlodi.

Mae'r data diweddaraf yn dangos i ni fod 710,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 185,000 o blant, 405,000 o oedolion oed gwaith a 120,000 o bensiynwyr. Mae cyfraddau tlodi cyffredinol wedi gweld dirywiad graddol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf (Siart 1). Yn y cyfnod o dair blynedd 1994/97ⁱⁱ, roedd 27% o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi. Gostyngodd hyn i'r gyfradd isaf o 22% erbyn 2003/06, gan godi ychydig i 24% yn 2005/08 ac yna parhau'n sefydlog o 2009/12 ymlaen ar 23%.

Mae'r gyfradd tlodi ar gyfer Cymru yn uwch nag ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddonⁱⁱⁱ. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf mae'r gyfradd tlodi ar gyfer Cymru yn gyffredinol wedi bod yn uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.


Siart 1: Cyfran o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC), yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon



Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd. Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog.

Mae'r gyfradd dlodi gyffredinol yn cuddio amrywiaethau mawr ar gyfer gwahanol grwpiau yn y boblogaeth. Pensiynwyr sydd â'r gyfradd dlodi isaf, ac yna pobl oed gwaith heb blant. Mae tlodi ar ei uchaf ymysg teuluoedd gyda phlant.

Siart 2: Cyfran o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC) yng Nghymru, yn ôl math




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd. Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Pensiynwyr

Ymysg **pensiynwyr**, gostyngodd y gyfradd tlodi yng Nghymru o 26% yn 1994/97 i 18% yn 2003/06 (Siart 3). Fe barhaodd i ostwng tan 2010/13 (14%), ond ers hynny mae wedi codi eto, fel bod y gyfradd yn 2013/16 yr un fath ag yn 2003/06 (18%). Yn 1994/97 roedd y gyfradd tlodi ar gyfer pensiynwyr yng Nghymru yn is nag yn Lloegr na'r Alban, ond mae'r gyfradd nawr yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Siart 3: Cyfran o bensiynwyr yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC), yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon




*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)*

Mae tlodi ymysg pensiynwyr yn amrywio yn ddibynnol ar os ydynt yn byw ar eu pennau eu hunain neu fel cwpwl. Mae mwy o bensiynwyr sengl yng Nghymru yn byw mewn tlodi na'r rhai sydd mewn cwpwl, er bod y gostyngiad mewn tlodi wedi bod yn fwy ar gyfer pensiynwyr sengl (Siart 4). Gostyngodd y gyfradd tlodi ymysg pensiynwyr sengl o 32% i 22% rhwng 1994/97 a 2003/06, ond mae wedi parhau ar lefel debyg ers hynny, ar 21% yn 2013/16. Roedd y gyfradd tlodi o 21% ar gyfer pensiynwyr yn byw fel cwpwl yn 1994/97 yn llawer is nag ar gyfer pensiynwyr sengl. Yn ystod y 10 mlynedd nesaf i 2003/06 fe ostyngodd i 16%. Mae wedi parhau ar y lefel hon yn y blynyddoedd diwethaf ac yn dal ar 16% yn 2013/16.

Mae'r patrymau hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â gweddill y Deyrnas Unedig, ar wahân i'r tueddiadau diweddar ymysg pensiynwyr yn byw fel cwpwl. Mae'r gyfradd tlodi ar gyfer y grŵp hwn wedi aros yr un fath yng Nghymru rhwng 2003/06 a 2013/16, ond mae wedi gostwng yn yr un cyfnod o 17% i 12% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Siart 4: Cyfran o bensiynwyr yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC) yng Nghymru, yn ôl math o deulu




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Tlodi oed gwaith

Yn 1994/97, roedd gan Gymru'r cyfraddau uchaf o **dlodi oed gwaith** o gymharu â Lloegr, yr Alban a Chymru 24% (Siart 5). Gostyngodd hyn i 21% erbyn 2003/06 ond ers hynny mae wedi cosi eto i 23%, ac yn parhau i fod yn uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Siart 5: Cyfran o oedolion oed gwaith yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC), yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Tlodi plant

Gostyngodd tlodi plant yng Nghymru o 36% i 29% rhwng 1994/97 a 2003/06, ond mae ar lefel debyg yn 2013/16 (30%), er ei fod wedi cynyddu i 33% yn ystod y blynyddoedd cyfamserol cyn codi eto. Dechreuodd tlodi plant yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ar lefel is (33% yn 1994/97), ond gostyngodd yn sylweddol yn 1994/97 a 2003/06 (o 33% i 29%), ac mae ar yr un lefel yn 2013/16 (29%), er ei fod wedi lleihau i 27% yn y cyfnod cyfamserol cyn codi eto^{iv}. Mae'r gyfradd tlodi plant yng Nghymru nawr yn debyg i Loegr, ond yn uwch na'r Alban a Gogledd Iwerddon (Siart 6).


Siart 6: Cyfran o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC), yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon



*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)*

Mae cyfraddau tlodi ar gyfer oedolion mewn gwahanol fathau o deulu oed gwaith yn gyffredinol debyg yng Nghymru ag y mae yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol (Siart 7).

Siart 7: Cyfran o oedolion oed gwaith yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC), yn 2013/14–2015/16 yn ôl math o deulu, Cymru a'r Deyrnas Unedig




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.

Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, cafwyd gostyngiad mawr mewn tlodi ar gyfer rhai grwpiau, ond mae cyfraddau ar gyfer nifer wedi dechrau codi eto (Siart 8).

Gostyngodd tlodi ymysg **rhieni unigol** yn arwyddocaol o bwynt cychwyn uchel, ond mae bron i hanner rhieni unigol yn dal i fyw mewn tlodi. Roedd tua chwarter **cyplau gyda phlant** mewn tlodi 20 mlynedd yn ôl; wedi gostwng i lai nag un pumed, mae'r ffigwr hwn wedi codi eto i 23% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae tlodi ymysg **pobl sengl heb blant** wedi bod yn gyson rhwng 25% a 30% rhwng 1994/97 a 2013/16. Mae **cyplau heb blant** wedi bod â'r cyfraddau tlodi isaf yn gyson ac wedi parhau'n sefydlog am 20 mlynedd.

Siart 8: Cyfran o oedolion oed gwaith yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC) yng Nghymru, yn ôl math o deulu




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Gwaith a diweithdra

Mae'r risg o dlodi yn llawer is ar gyfer pobl mewn aelwydydd ble mae un neu fwy o bobl mewn gwaith cyflogedig. Ar y cyfan, yng Nghymru roedd cyfradd tlodi 2013/16 ar gyfer oedolion oed gwaith yn byw mewn aelwydydd di-waith yn 65%, o gymharu â 16% mewn aelwydydd ble roedd o leiaf un oedolyn mewn gwaith (30% mewn aelwydydd ble roedd rhai ond nid yr holl oedolion mewn gwaith a 10% mewn cartrefi ble nad yw pawb yn gweithio).⁹ Roedd y 65% yn gynydd o 60% yn 1996/99.

Yng Nghymru, roedd 16% o aelwydydd yn **aelwydydd di-waith** yn 2017 (Siart 9). Mae'r lefel diweithdra wedi gostwng ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Dechreuodd Cymru gyda'r gyfradd ar y cyd uchaf o ddiweithdra (gyda Gogledd Iwerddon) ond, wedi 2001, gostyngodd hyn yn sylweddol o 25% i 20% yn 2008. Roedd yna gynydd i 23% yn 2010 cyn lleihad cyson i'r gwerth presennol. Mae gan Gymru nawr lefel is o ddiweithdra na Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae'r gyfradd yn dal yn uwch nag yn Lloegr.


Siart 9: Canran o aelwydydd di-waith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon



Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer ail chwarter pob blwyddyn.
Ffynhonnell: Data Aelwydydd yr Arolwg o'r Llafurlu

Felly hefyd, yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, mae cyfraddau cyflogaeth cyffredinol wedi'n sylweddol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf (Siart 10). Yng Nghymru, cododd y gyfradd o 66% yn chwarter olaf 1997 i 70% 10 mlynedd yn ddiweddarach a 73% yn chwarter olaf 2017. Mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi parhau yn uwch na Gogledd Iwerddon ond yn is na Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, mae Cymru wedi culhau'r bwlch yn sylweddol gyda chyfraddau cyflogaeth yn Lloegr a'r Alban.

Siart 10: Cyfradd cyflogaeth yng Nghymru gydag amser, unigolion 16 i 64 oed




Sylwer: Mae ffigurau yn seiliedig ar ddata chwarterol.
Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu

Dros y ddwy ddegawd ddiwethaf, mae'r risg o dlodi wedi bod yn codi yng Nghymru ar gyfer oedolion yn byw mewn aelwydydd di-waith a ble mae o leiaf un person mewn gwaith.

- Mae gan oedolion mewn aelwydydd ble mae pob oedolyn mewn gwaith y lefelau isaf o dlodi, ond mae eu cyfradd tlodi wedi cynyddu ychydig dros y 10 mlynedd diwethaf (Siart 11).
- Mae'r risg o dlodi bron i dair gwaith mor uchel ar gyfer oedolion yn byw mewn aelwydydd gydag o leiaf un ddim yn gweithio o gymharu ag aelwydydd ble mae pob oedolyn mewn gwaith, ac mae eu cyfradd tlodi wedi cynyddu yn sefydlog dros yr 20 mlynedd diwethaf, fel yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.
- Mae oedolion yn byw mewn aelwydydd di-waith erioed wedi bod â'r risg uchaf o dlodi. Fodd bynnag, yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig, mae eu risg o dlodi wedi cynyddu yng Nghymru yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf.

Siart 11: Cyfran o oedolion oed gwaith yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC) yng Nghymru, yn ôl statws gwaith aelwyd



Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd. Nid oes dadansoddiad ar gael o aelwydydd di-waith yn Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog cyn 1996/97, felly'r cyfnod tair blynedd gyntaf a dangosir yw 1996/97 i 1998/99.

Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)


Tai

Talu am dai, p'un ai'n daliadau rent neu forgais, yw'r gost unigol fwyaf ar gyfer nifer o gartrefi. Mae gallu fforddio cartref gweddus, diogel yn ofyniad sylfaenol, sy'n sylfaen i iechyd meddyliol a chorfforol, perthnasau a mynediad at addysg a gwaith. Felly mae cost tai yn cael effaith fawr ar os yw pobl yn gallu bodloni'r angen sylfaenol hwn, a pha adnoddau sydd ganddynt yn weddill i fodloni eu holl anghenion eraill.

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, cafwyd cynnydd yn y gyfradd o bobl yn rhentu'n breifat ac yn rhentu o Gymdeithasau Tai yng Nghymru, a lleihad yn y gyfran yn rhentu gan awdurdodau lleol (Siart 12). Mae'r sector rhent cymdeithasol (Cymdeithasau Tai a thai awdurdodau lleol) tua'r un faint yn gyfrannol yng Nghymru ag y mae yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n parhau i fod ychydig yn fwy na'r sector rhentu preifat, fel sy'n wir yn yr Alban, tra bod y sector rhentu preifat nawr yn fwy yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Dros 20 mlynedd, ers 1997, mae'r gyfran o dai rhent cymdeithasol yng Nghymru wedi gostwng o 20% i 16%. Ers 2006, mae'r gyfran honno wedi parhau i fod yn gyffredinol sefydlog. Fodd bynnag, cafwyd newid nodedig i ffwrdd o berchnogion preswyl (a ostyngodd o 75% i 69%) tuag at lety rhent preifat (a gynyddodd o 8% i 15% o'r holl anheddau).

Siart 12: Proffil daliadaeth tai yng Nghymru dros amser




Sylwer: Mae ffigurau yn seiliedig ar ddata blynyddol.

Ffynhonnell: Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, ystadegau stoc annedd

Mae'r gyfradd dlodi yng Nghymru yn llawer uwch ar gyfer rhentwyr tai cymdeithasol a phreifat nag ar gyfer perchnogion preswyl (Siart 13). Yn 2013/16,

roedd 46% o denantiaid cymdeithasol a 44% o rentwyr preifat yng Nghymru mewn tlodi, o gymharu â 13% o berchnogion preswyl. Mae'r risg o dlodi wedi gostwng dros 20 mlynedd ar gyfer pobl yn byw mewn pob math o gartref. Fodd bynnag, mae'r risg o dlodi ar gyfer pobl yn y sector rhentu preifat cynyddol yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig (44% o gymharu â 37% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol).

Siart 13: Cyfran o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi incwm cymharol (AHC) yng Nghymru, yn ôl math daliadaeth tai



*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd ariannol.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)*

Ar y cyfan, mae 13% o oedolion oed gwaith yng Nghymru yn treulio mwy na thraean o'u hincwm ar (yn cynnwys budd-dal tai) gostau tai. Mae hyn yn is nag yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol (16%). Yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth oed gwaith yng Nghymru, mae 42% yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar gostau tai o gymharu â 47% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.


Fodd bynnag, mae'r ganran o'r pumed tlotaf o oedolion oed gwaith yng Nghymru yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar gostau tai wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf; i fyny o 36% yn 1994/97 i 42% yn 2013/16. Mae'r tueddiadau hyn yn debyg i batrymau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, ble mae'r gyfran o oedolion oed gwaith yn y pumed tlotaf yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar dai wedi codi o 39% i 47% dros y cyfnod o 20 mlynedd^{vi}.

Mae oedolion oed gwaith yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn fwy tebygol o dreulio mwy na thraean o'u hincwm ar dai na'r rhai mewn mathau eraill o dai: 39% yn 2013/16, gyda rhentwyr cymdeithasol yn yr ail safle (33%) (Siart 14). Dros 20 mlynedd, mae'r canran wedi gostwng yn raddol ymysg perchnogion preswyl oed gwaith, o fan cychwyn isel iawn o 4% yn 1994/97 i 1% yn 2013/16. Ymysg

rhentwyr cymdeithasol, cafodd lleihad rhwng 1994/97 a 2007/10 ei wyrdroi yn ystod y 10 mlynedd hyd at 2013/16: i fyny o 22% i 33%. Ni welwyd patrwm clir dros amser ymysg rhentwyr preifat.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r ganran gyffredinol o oedolion oed gwaith yng Nghymru yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar gostau tai yn is na'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae'r gwahaniaeth wedi ei grynodi yn y sector rhentu, yn arbennig ymysg aelwydydd yn rhentu gan landlordiaid preifat.

Siart 14: Cyfran o oedolion oed gwaith yng Nghymru yn treulio mwy na thraean o'u hincwm ar dai, yn ôl daliadaeth tai



Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd ariannol.
Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Ansawdd tai

Mae cost tai yn ysgogydd pwysig ar gyfer tlodi – mae costau tai yn gadael teuluoedd gyda llai o arian i dalu am weddill eu hanghenion. Mae ansawdd y cartref y gall unigolyn neu deulu ei fforddio hefyd, wrth gwrs, wedi ei gysylltu'n agos i incwm, ond hefyd i'w deiliadaeth. Mae'r system dai, gyda thai cymdeithasol, Budd-dal Tai a chefnogaeth i bobl ddigartref, wedi chwarae rôl bwysig o ran diogelu pobl rhag rhywfaint o effaith tlodi. Mae hefyd wedi torri'r cyswllt rhwng tlodi ac amodau tai gwael, o leiaf i raddau^{vii}.

Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae'r amddiffyniad a gynigir gan y system dai i'r rhai mewn tlodi wedi gwanhau. Mae'r gyfradd gynyddol o bobl mewn tlodi yn byw yn y sector rhentu preifat hefyd wedi datgelu llawer mwy o bobl, yn arbennig teuluoedd gyda phlant, i'r safonau is ac ansicrwydd mwy yn y sector honno.

Mae perchnogaeth cartref yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn tlodi, yn arbennig ar gyfer pensiynwyr sydd wedi talu eu morgais ac felly sydd â chostau tai isel iawn. Fodd bynnag, nid yw bod yn berchen ar gartref yn rhoi sicrwydd o ddianc tlodi – mae traean o'r rhai mewn tlodi yn berchen ar eu cartref.

Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas i anghenion preswylwyr presennol ac yn y dyfodol.

Gosododd Llywodraeth Cymru darged ar gyfer pob landlord cymdeithasol i wella eu stoc tai i fodloni SATC cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf.

Ar y cyfan, yn 2016, nid oedd 21% o dai cymdeithasol yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae hyn wedi gostwng o 40% yn 2013. Mae safonau'n amrywio rhwng tai sy'n eiddo i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn 2013, methodd 61% o anheddau awdurdodau lleol a bodloni'r safon, gan ostwng i 46% erbyn 2016. Mewn cyferbyniad, yn 2013, roedd 26% o eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi methu bodloni'r safon, yn gostwng i 4% erbyn 2016^{viii}.


Iechyd

Mae cysylltiadau rhwng iechyd corfforol a meddyliol a thlodi. Mae pobl ar incymau is yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd corfforol a meddyliol. Gall y straen o fyw ar incwm isel gael effaith negyddol ar iechyd. Gall bod yn anabl neu gyda phroblemau iechyd hefyd gyfrannu ar gael incwm isel gan y gall pobl ei chael yn anoddach canfod gwaith, fod ag enillion is ac wynebu costau ychwanegol^{ix}.

Mae gwybodaeth ynghylch y cysylltiadau rhwng iechyd corfforol a thlodi ar gael ar gyfer Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar gyfer o gwestiynau a gyfunir i roi sgôr unigol rhwng 0 a 100; mae sgôr uwch yn dynodi gwell iechyd corfforol. Yn gyffredinol, mae gan bobl yn byw ar incymau is sgôr cyfartalog is na'r rhai ar incymau uwch, ac mae hyn yn berthnasol i Gymru yn ogystal ag i'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol (Siart 15).

Gydag amser, mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer oedolion yng Nghymru wedi parhau i fod yn sefydlog, ac mae'r gwahaniaethau fesul incwm wedi parhau i fod yn gyson rhwng 2009-10 a 2014-15.

Siart 15: Sgôr iechyd corfforol cymedrig ymysg oedolion (16+) yng Nghymru, yn ôl cwintel incwm



*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd blwyddyn unigol. Dechreuodd yr arolwg Deall Cymdeithas yn 2009-10, felly nid oes data ar gael cyn hyn.
Ffynhonnell: Arolwg Deall Cymdeithasol (Dadansoddiad JRF)*

Mae yna rywfaifaint o dystiolaeth parthed cyflyrau iechyd meddwl ymysg oedolion yng Nghymru, ond heb fawr o wybodaeth am gysylltiadau gydag incwm. Roedd y gyfran o'r boblogaeth gyda gorbryder neu iselder yn 2014-15 yn 17% yng Nghymru, sy'n debyg i'r gyfran yn Lloegr a'r Alban. Ni chafwyd newid gwirioneddol yn y gyfran yng Nghymru ers 2009-10, er bod y cyfraddau wedi gostwng ychydig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod yr un cyfnod amser^x. Ychydig o wybodaeth sydd ar gyfer Cymru ynghylch y cysylltiadau rhwng iechyd meddwl oedolion ac incwm, er bod data a gasglwyd ar gyfer Lloegr a'r Alban yn dangos rhywfaifaint o dystiolaeth o berthynas.

Ymysg *plant*, mae data ar gael ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys rhywfaifaint o wybodaeth am incwm^{xi}. Yn 2013-14, roedd 9% o blant 10-15 oed yn y Deyrnas Unedig yn dioddef cyflyrau iechyd meddwl difrifol, ac roedd gan 12% gyflyrau cymedrol. Roedd yna rywfaifaint o gysylltiad gydag incwm – roedd plant yn y pumed mwyaf cyfoethog yn llai tebygol o fod â phroblemau iechyd meddwl difrifol na gweddill y boblogaeth.


Adroddir bod ychydig dros bumed o blant 10-15 oed yng Nghymru yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl difrifol neu gymedrol. Mae hyn yn debyg i'r gyfran yn Lloegr ac ychydig yn uwch na yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae yna gysylltiadau cryf rhwng anabledd a thlodi. Mae pobl anabl yn llawer mwy tebygol o fod ac incymau is na rhai nad ydynt yn anabl, fel y mae pobl sy'n byw mewn aelwydydd gyda rhywun sy'n anabl.

Yng Nghymru, mae 39% o oedolion anabl mewn tlodi, o gymharu â 22% o bobl abl. Mae'r gyfradd tlodi ymysg pobl anabl yng Nghymru'r uchaf yn y Deyrnas Unedig i gyd.

Mae'r gyfradd tlodi ymysg pobl mewn teuluoedd sy'n cynnwys o leiaf un person anabl hefyd yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig; mae 29% o'r rhai yng Nghymru sy'n byw mewn teulu sy'n cynnwys rhywun sy'n anabl mewn tlodi, o gymharu â 21% o bobl yng Nghymru mewn teuluoedd nad ydynt yn cynnwys unigolyn anabl, a rhwng 23% a 26% o bobl yng ngweddill y Deyrnas Unedig mewn teuluoedd sy'n cynnwys o leiaf un unigolyn anabl.

Siart 16: Cyfran o bobl, mewn teuluoedd gydag o leiaf un unigolyn anabl, sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, 2013/14-2015/16




Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.

Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau Teulu/ Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (Dadansoddiad JRF)

Mae'r cysylltiad oes hwn rhwng iechyd a thlodi yn arwain at wahaniaethau mawr mewn disgwyliad oes iach y rhai gyda gwahanol incwm. Golyga cyfyngiadau data fod y rhain yn cael eu mesur yn unol â lefel amddifadedd yr ardal ble mae pobl yn byw, yn hytrach nag incwm eu haelwyd.

Ar y cyfan, mae gan bobl yn byw mewn ardaloedd mwy amddifad ddisgwyliad oes iach is na'r rhai mewn ardaloedd llai amddifad. Roedd y gwahaniaeth rhwng y disgwyliadau oes iach diweddaraf yn yr ardaloedd pumed mwyaf a lleiaf amddifad uchaf ar gyfer dynion yn yr Alban ar 18 o flynyddoedd, ond ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig roedd yn fwy na 12 mlynedd ar gyfer dynion a menywod.

**Siart 17: Disgwyliad oes iach ar enedigaeth yn ôl cwintel ardal amddifadedd
Lloegr 2013-15, Gogledd Iwerddon 2012-14, Cymru 2010-14, Yr Alban 2009-13**



Ffynonellau: Disgwyliadau oes cyflwr iechyd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD): Lloegr, 2013 i 2015, Swyddfa Ystadegau Gwladol; Scottish Public Health Observatory; Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru; Health Inequalities, Department of Health, Gogledd Iwerddon

Teulu a Pherthnasau

Mae'r perthnasau sydd gan bobl gyda theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach yn allweddol bwysig i fywydau'r mwyafrif o bobl. Mae cefnogaeth o'r ffynonellau hyn yn chwarae rôl bwysig i nifer o bobl o ran eu galluogi i ymdopi gydag adfyd, dod i ben mewn tlodi neu anawsterau eraill ac, i rai, wella eu hamgylchiadau a rhagolygon^{xii}. Mae cyswllt agos rhwng perthnasau gyda theulu a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach eraill i ffactorau yn cynnwys incwm, daearyddiaeth ac ethnigrwydd^{xiii}.


Mae perthnasau rhwng rhieni (p'un ai'n byw gyda'i gilydd neu beidio) a rhwng rhieni a phlant yn cael effaith fawr ar les a datblygiad plant, yn ogystal ag ar incwm y teulu a lles yr oedolion dan sylw^{xiv}. Mae perthnasau ble ceir gwrthdaro hefyd yn gallu cael effeithiau negyddol ar blant ac oedolion. Gall y straen o fyw ar incwm isel fod yn gysylltiedig i ddirywiad perthnasol ymysg cyplau, ac i'r perthnasau rhwng rhieni a phlant.

Mae nifer o bobl yn defnyddio eu rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer cefnogaeth faterol, gwybodaeth a chynghor a chyfleoedd i chwilio am waith neu hyfforddiant. Fodd bynnag, gall byw mewn tlodi hefyd effeithio ar y teulu a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach y mae pobl yn gallu eu defnyddio a'u cynnal. Gall rhwydweithiau cymdeithasol ehangach fod yn anoddach i'w datblygu ar gyfer pobl ar incwm isel^{xv}.

Ynysiad cymdeithasol

Gellir mesur ynysiad cymdeithasol mewn sawl ffordd. Yma mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar gwestiwn yn gofyn faint o ffrindiau agos sydd gan bobl ac yn ffocysu ar y gyfran o bobl sy'n dweud nad oes ganddynt fwy nag un cyfaill agos. Mae'r gyfran o bobl yng Nghymru sy'n dweud nad oes ganddyn nhw ddim neu ddim ond un cyfaill agos yn uwch ar gyfer y rhai mewn grwpiau incwm is na'r rhai mewn grwpiau gwell eu byd (Siart 18). Mae hefyd yn uwch ymysg y rhai sy'n byw mewn cartrefi di-waith (12%) na'r cartrefi ble mae o leiaf un person mewn gwaith (7%). Mae'r patrymau hyn yr un fath ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae'r gyfran gyffredinol o bobl yng Nghymru sydd â dim mwy nag un cyfaill agos wedi lleihau ers 2011-12, o 11% i 8% (o gymharu ag 11% i 9% ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol).

Siart 18: Cyfran o oedolion (16+) yng Nghymru gyda dim mwy nag un cyfaill agos, yn ôl cwintel incwm



*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd blwyddyn unigol. Holwyd y cwestiwn hwn gyntaf yn 2011-12, felly nid oes data ar gael cyn hyn.
Ffynhonnell: Arolwg Deall Cymdeithasol (Dadansoddiad JRF)*

Rhwydweithiau cefnogaeth


Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn seiliedig ar gwestiwn yn yr arolwg Deall Cymdeithas sy'n gofyn a yw ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad "pe byddwn i angen cyngor am rywbeth mi allwn i fynd at rywun yn fy nghymdogaeth."

Mae'r dadansoddiad yn archwilio ymatebwyr sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad. Yn 2014-15, dywedodd 54% o oedolion yn y Deyrnas Unedig fod yna rywun yn y gymdogaeth y gallent droi atynt am gyngor. Roedd y gyfran yn uwch ymysg y rhain yn y ddau bumed tlotaf o'r boblogaeth. Yng Nghymru, fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna rhwng gwahanol grwpiau incwm (Siart 19).

Mae angen gwaith pellach i ddehongli patrwm ar draws y Deyrnas Unedig ac i archwilio'r amrediad o ffynonellau cefnogaeth cymdeithasol a ddefnyddir gan bobl mewn gwahanol grwpiau, a pha mor bell maent yn teimlo fod y rhain yn bodloni eu hanghenion. Er enghraifft, gallai fod yn wir fod y rhai mewn grwpiau gyda lefelau cymorth is yn eu hardal leol yn dueddol o ddefnyddio perthnasau gyda phobl sy'n byw yn bellach i ffwrdd – gan eu bod yn fwy tebygol o fod wedi symud i ffwrdd oddi wrth eu teulu estynedig a ble cawsant eu magu, ac yn fwy tebygol o fod wedi mynd i ffwrdd i'r brifysgol oddi cartref.

Yng Nghymru parhaodd y canran cyffredinol o bobl sy'n dweud fod yna rywun yn eu cymdogaeth y gallant fynd atynt am gyngor ar yr un lefel rhwng 2011-12 a 2014-15 (58%) o gymharu â chynnydd o 50% i 54% dros yr un cyfnod ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Siart 19: Cyfran o oedolion (16+) yng Nghymru sy'n cytuno y gallent fynd at rywun yn eu cymdogaeth am gyngor, yn ôl cwintel incwm



*Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd blwyddyn unigol. Dechreuodd yr arolwg Deall Cymdeithas yn 2009-10, felly nid oes data ar gael cyn hyn.
Ffynhonnell: Arolwg Deall Cymdeithasol (Dadansoddiad JRF)*

Perthnasau rhwng plant a rhieni

Mae mesur natur ac ansawdd perthnasau rhwng plant a rhieni yn gymhleth. Yma, mae'r dadansoddiad yn ffocysu ar sefyllfaoedd ble mae plant rhwng 11 a 15 oed yn adrodd eu bod yn ffrae gydag o leiaf un rhiant fwy nag unwaith yr wythnos, a phrin byth yn trafod materion pwysig gyda'r naill riant. Diffinnir hyn fel perthynas wael rhwng y plentyn a'r rhiant.

Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae yna rywfaif o gysylltiad rhwng y materion hyn ac incwm (mae meintiau samplau yn rhy fach i edrych ar wahaniaethau incwm yng Nghymru). Yn y Deyrnas Unedig, mae'r gyfran o blant sy'n adrodd fod ganddynt berthynas wael gyda'u rhieni ychydig yn uwch ar gyfer y rhai yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth (9%), o gymharu â'r rhai yn y ddau bumed mwyaf cyfoethog (5%). Mae hyn wedi parhau i fod yn sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.

Yng Nghymru, roedd y gyfran o blant yn adrodd perthynas wael gyda rhieni yn 2013-14 yn 8%, heb unrhyw newid ystadegol arwyddocaol rhwng 2011-12 a 2013-14^{xvi}.

Trallod perthynas

Mae trallod perthynas yn gysyniad a ddatblygwyd gan yr elusen Relate ac a ddefnyddiwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eu hadroddiad Improving Lives^{xvii}. Diffinnir teulu cwpwl fel un sy'n profi trallod perthynas os ydynt yn dweud eu bod y rhan fwyaf o'r amser neu'n holl amser yn ystyried ysgariad, yn edifarhau byw gyda'i gilydd, yn ffrae neu'n mynd ar nerfau ei gilydd, pan ofynnir iddynt am eu perthynas â'u partner.

Mae saith y cant o rieni yn byw mewn cwpwl yn y Deyrnas Unedig yn adrodd trallod perthynas. Mae hyn yn amrywio ychydig yn ôl incwm, gyda'r uchaf ymysg rhieni yn y ddau bumed tlotaf o'r boblogaeth (mae meintiau sampl yn rhy fach i nodi gwahaniaethau yn ôl incwm yng Nghymru). Yng Nghymru ar y cyfan, mae 9% o rieni yn byw mewn cwpwl wedi adrodd trallod perthynas yn 2013/14^{xviii}.

Sbardunau tlodi yn y dyfodol

Y sbardun mwyaf i dlodi yn y dyfodol yw cyrhaeddiad addysgol plant pan fyddant yn gadael addysg llawn amser^{xix}. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar eu siawnsiau o gael eu cyflogi ac ennill digon i osgoi tlodi fel oedolion. Ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi gadael addysg llawn amser, mae lefelau sgiliau yn ddaroganwr pwysig o gyflogaeth, enillion a thlodi.


Nid yw incwm cyfredol yr unig ffactor sy'n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i fodloni anghenion aelwyd. Gall cael rhywfaint o gynilion fod yn fyffer pwysig i gynnig sicrwydd yn erbyn amrywiaethau annisgwyl mewn incwm ac i osgoi defnyddio credyd cost uchel i dalu costau o ddydd i ddydd. Felly hefyd, gall mynd i ddyled trwy fod yn hwyr gyda biliau ei gwneud yn llawer anoddach i rywun gyrraedd safon byw rhesymol, hyd yn oed os yw eu hincwm yn cynyddu. Mae cronni pensiwn yn ffactor bwysig yn lliniaru'r risg o dlodi yn hwyrach mewn bywyd.

Addysg a sgiliau

Dengys ffigurau **cyrhaeddiad addysgol** ar gyfer Cymru bod y gyfran o blant 11 oed yn cyflawni Lefel 4 neu uwch ym mhob pwnc craidd (Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi cynyddu'n gyson ers 1999, y flwyddyn gyntaf ble mae data ar gael, gydag yn agos at 90% o blant yn cyflawni'r safon hon.

Roedd canlyniadau ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim tua 14 pwynt canrannol yn is na rhai plant nad oeddynt yn gymwys; fodd bynnag, mae'r bwlch bron wedi haneru ers 2005 (i lawr o 26%).


Siart 20: Cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 2 yn ôl a yw'n gymwys am brydau ysgol am ddim (FSM), 2005-2016



*Sylwer: Data yn seiliedig ar ffigurau blynyddol. Mae ystadegau a gyhoeddwyd yn cynnwys data o 2005 ymlaen yn unig. Cyflawnir Cyfnod Allweddol 2 pan fydd plentyn yn cyflawni o leiaf y lefelau disgwylidig (lefel 4) mewn asesiadau athro yn yr holl bynciau Dangosydd Pynciau Craidd (CSI): Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

Ar Lefel TGAU yng Nghymru, mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n cymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn uwch nag ar Lefel Cyfnod Allweddol 2 ond wedi parhau yn gyffredinol yr un fath ers 2007 (yn wahanol i'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer rhai 11 oed sydd wedi culhau'n sylweddol yn ystod y cyfnod. Roedd ar ei uchaf ar tua 34 pwynt canrannol yn 2010 sy'n dangos ychydig o leihad i 31 pwynt canrannol yn 2016.

Siart 21: % o ddisgyblion yng Nghymru yn cyflawni graddau A*-C mewn TGAU a chyfatebol yn cynnwys Mathemateg a Saesneg, yn ôl a yw'n derbyn prydau ysgol am ddim (FSM), 2007-2016




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Sgiliau oedolion

Ugain mlynedd yn ôl, roedd gan Gymru gyfran uwch o oedolion oed gwaith heb unrhyw gymwysterau na Lloegr a'r Alban; erbyn 2016 roedd hyn wedi lleihau'n sylweddol i fod fwy neu lai'r un lefel â Lloegr a'r Alban, ac yn llawer is na Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran o bobl yng Nghymru gyda gradd neu gymhwyster addysg uwch arall hefyd wedi dyblu yn ystod yr amser hwnnw.


Siart 22: Poblogaeth oed gwaith yn ôl lefel cymhwyster uchaf 1996, 2006 a 2016



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu (Dadansoddiad JRF)

Gan edrych ar gymwysterau ymysg gwahanol grwpiau oedran o'r boblogaeth oed gwaith, mae gan Gymru (fel Gogledd Iwerddon) gyfran lai o unigolion 25 i 49 oed wedi eu haddysgu i lefel addysg uwch (yn cynnwys gradd) na Lloegr a'r Alban.

Siart 23: Poblogaeth oed gwaith yn ôl lefel cymhwyster uchaf ac oed, 2016



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu (Dadansoddiad JRF)

Pensiynau a dyled

Ymysg oedolion o oed gwaith ac mewn gwaith yng Nghymru, mae 56% yn cymryd rhan yn weithredol mewn cynllun pensiwn (2015/16)^{xx}. Mae hyn yn gymharol â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynyddodd y gyfran yng Nghymru rhwng 2011/12 a 2015/16 (o 48% i 56%), yn dilyn lleihad rhwng 2006/07 a 2011/12.

Mae yna amrywiaethau mawr yn y cyfrannau yn cyfrannu i gynllun pensiwn mewn gwahanol grwpiau yn Nghymru:


- Mae cyflogeion (59%) yn llawer mwy tebygol o fod â phensiwn na'r hunangyflogedig (33%). Awgryma dadansoddiad ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol fod y cynnydd wedi 2011/12 wedi ei grynodi ymysg cyflogeion, tra bod y gyfradd wedi gostwng ar gyfer pobl hunangyflogedig.
- Mae cyflogeion llawn amser (61%) yn fwy tebygol o fod â phensiwn na chyflogeion rhan amser (36%).
- Dim ond 26% o'r bobl yn y pumed tlotaf i'r boblogaeth sydd â phensiwn, o gymharu â 72% o'r rhai yn y pumed mwyaf cyfoethog.

Yn 2015/16, roedd 7% o gartrefi yng Nghymru yn wynebu problemau dyledion, a ddiffinnir gan yr Arolwg Adnoddau Teuluol fel bod yn hwyr yn talu unrhyw fil cartref neu ymroddiad credyd. Gostyngodd y gyfran hon rhwng 2012/13 a 2015/16 (o 10%), wedi cyfnod o sefydlogrwydd cymharol rhwng 2005/06 a 2012/13. Mae ffigurau ar gyfer Cymru fwy neu lai yn unol â'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Mae problemau dyledion wedi ei grynhoi o fewn aelwydydd incwm is, yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, roedd 18% o aelwydydd yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth yn wynebu problemau dyledion yn 2015/16, o gymharu â dim ond 1% yn y pumed mwyaf cyfoethog (Siart 24).

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r mesur hwn o broblemau dyled yn cynnwys dyled ar gardiau siop, taliadau archebion trwy'r post a benthyciadau gwybodaeth gan ffrindiau neu deulu. Mae'n cynnwys; biliau trydan, neu a thanwydd eraill yr aelwyd, y Dreth Gyngor, biliau ffôn, hurbwrcasu, costau dŵr a thaliadau rhent neu forgais. O 2012/13, roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys benthyciadau eraill, ac o 2015/16 ad-daliadau cardiau credyd a benthyciadau eraill.

Siart 24: Cyfran aelwydydd yng Nghymru gyda phroblemau dyled, yn ôl cwintel incwm, 2015/16



Sylwer: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd blwyddyn unigol.
Ffynhonnell: Arolwg Adnoddau Teuluol (Dadansoddiad JRF)

Casgliadau

Mae cyfraddau tlodi cyffredinol wedi gostwng yn raddol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Roedd yn ostyngiadau mawr iawn mewn tlodi ymysg y grwpiau hynny ble roedd wedi bod yn uchel iawn – pensiynwyr (yn arbennig pensiynwyr sengl) a rhieni unigol. Gostyngodd tlodi hefyd ymysg cyplau gyda phlant rhwng 1994/97 a 2003/06.

Fodd bynnag, stopiodd tlodi pensiynwyr yng Nghymru ostwng yn 2010/13, ac ers hynny mae wedi cynyddu tra'n parhau i fod yn sefydlog gyda gweddill y Deyrnas Unedig. Parhaodd tlodi ymysg rhieni unigol i ostwng yng Nghymru – o 61% yn 1994/97, i 51% yn 2003/06 a 46% yn 2013/16. Fodd bynnag, ymysg cyplau gyda phlant a phobl sengl heb blant, roedd tlodi yn dechrau codi eto rhwng 2003/06 a 2013/16.

Roedd diweithdra wedi gostwng yn arwyddocaol yng Nghymru, tra bod cyflogaeth wedi codi; gan weld cynnydd tuag at gau'r bwlch gyda Lloegr a'r Alban ar y ddau fater. Fodd bynnag, mae tlodi yng Nghymru nawr yn uwch nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig ar gyfer aelwydydd di-waith. Mae'n fater gofid bod y risg o dlodi wedi bod yn codi ers 2003/06, hyd yn oed ymysg teuluoedd sy'n gweithio.

Mae costau tai yn is yng Nghymru nag mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, sy'n golygu fod yn rhaid i gyfran lai o aelwydydd wario mwy nag un traean o'u hincwm ar dai nag yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r gyfran i'r rhai yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth yng Nghymru sydd angen gwario'r lefel yma o incwm ar dai wedi codi i 42% yng Nghymru, ac yn arbennig o uchel yn y sector rhentu preifat cynyddol.

Mae tlodi yn gysylltiedig i salwch corfforol a meddyliol ymysg oedolion a phlant. Mae lefelau uwch o broblemau iechyd corfforol a meddyliol yn diweddu mewn bwlch o tua 15 mlynedd mewn disgwyliad oes iach ymysg y rhai yn byw yn y rhannau mwyaf amddifad o Gymru, o gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf amddifad.

Mae'r straen o dlodi hefyd yn effeithio ar berthnasau, yn arbennig rhwng cyplau a rhwng rhieni a phlant. Mae pobl ifanc yn y pumed tlotaf o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn fwy tebygol o fod â pherthynas wael â'u rhieni. Mae cyplau gydag incymau isel hefyd yn adrodd mwy o anawsterau yn eu perthynas ac yn fwy tebygol o wahanu, sy'n cynyddu eu risg dilynol o dlodi. Mae yna gyfran uwch o gartrefi gyda phlant ble mae'r rhieni wedi gwahanu yng Nghymru (37%) nag yn Lloegr (29%), yr Alban (30%) neu Ogledd Iwerddon (30%).

Mae'r system addysg yng Nghymru wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran gwella cyrhaeddiad cyffredinol a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant o gefndiroedd mwy cyfoethog a mwy tlawd yn 11 oed. Fodd bynnag, mae plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn dal yn sylweddol llai tebygol o gael pump TGAU da neu fwy na'r rhai nad ydynt, sy'n golygu eu bod yn llawer llai tebygol o allu cael cymwysterau uwch a chael swydd a fydd yn eu galluogi i osgoi tlodi fel oedolion.

Nid yw'r mwyafrif o bobl yn y pumed tlotaf yn cronni pensiwn. Mae hyn yn cynyddu eu risg o fethu talu am gostau byw annisgwyl ac o fyw mewn tlodi pan fyddant yn

hŷn. Mae lleihau tlodi ymysg y boblogaeth oed gwaith yn allweddol ynddo'i hun, A hefyd i alluogi pobl i gronni cynilion i roi sicrwydd yn erbyn costau yn y dyfodol, a phensiwn i leihau tlodi ymysg pensïynwyr yn y dyfodol.

Awgryma cynnydd mewn cyfraddau tlodi, er gwaethaf y cynnydd mewn sgiliau a chyflogaeth, nad yw'r farchnad lafur yn dod o hyd i ddigon o swyddi sy'n cynnig cyflog ac oriau a fydd yn mynd â phobl allan o dlodi ar hyn o bryd. Ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, mae nifer o bobl yn gweithio rhan amser yn cael eu talu llai'r awr na'r rhai sy'n gweithio amser llawn^{xxi}. Mae hefyd yn wir nad yw gweithwyr rhan amser yn gweld yr un cynnydd cyflog dros gyfnod o amser^{xxii}. Mae gwaith rhan amser yn amlwg yn fater pwysig i'w daclo os ydym eisïau i'r farchnad lafur wneud mwy tuag at gael pobl allan o dlodi.

Mae angen trosi lleihad mewn diweithdra a chynnydd mewn cyflogaeth nawr i dlodi is ar gyfer aelwydydd oed gwaith a phensiynwyr. Gwelwyd camau mawr tuag at leihau tlodi rhwng 1994/97 a 2003/06. Fe ymddengys fod y rhain nawr yn dirywio i nifer o grwpiau. Rhaid i Lywodraeth Cymru, busnes, cyflogwyr, cymunedau a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gymryd camau i atal cynnydd tlodi, adennill tir a lleihau cyfraddau tlodi ymhellach fyth.



Ynghylch Sefydliad Joseph Rowntree

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn gorff annibynnol sy'n gweithio i ysbrydoli newid cymdeithasol trwy ymchwil, polisiâu ac arferion.

Mae JRF yn gweithio gyda llywodraethau busnesau, cymunedau, elusennau ac unigolion i ddatrys tlodi yn y Deyrnas Unedig. Daw'r rhan fwyaf o'r syniadau a amlinellwyd uchod o'n [strategaeth ddiweddar i ddatrys tlodi yn y Deyrnas Unedig](#) sy'n cynnwys dadansoddiad ac argymhellion ar gyfer pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae unrhyw waith ymchwil a gyhoeddir gan JRF, yn cynnwys y cyhoeddiadau yn y cyfeiriadau, ar gael i'w lawrlwytho o www.jrf.org.uk

Os hoffech chi drefnu cyfarfod gydag un o'n harbenigwyr i drafod y pwyntiau a godwyd, cysylltwch â: Helen Barnard: Pennaeth Dadansoddi
helen.barnard@jrf.org.uk 01904 735008 @helen_barnard

Nodiadau

-
- ⁱ Defnyddir 'tlodi' yma i olygu incwm aelwyd, wedi ei addasu ar gyfer maint teulu, islaw 60 y cant o incwm canolrifol wedi ei addasu i'r teulu. Mesurir incwm wedi didynnu costau tai.
- ⁱⁱ Mae'r holl ystadegau tlodi yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd oherwydd meintiau sampl bychan ar gyfer Cymru mewn blyneddau unigol.
- ⁱⁱⁱ Cafwyd yr ystadegau ar dlodi o Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog. Dim ond ers 2002 mae'r adroddiad hwn wedi cynnwys Gogledd Iwerddon; felly mae data cynharach wedi eithrio Gogledd Iwerddon.
- ^{iv} Ffigurau o Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, cyfartaledd tair blynedd, 1994/97, 2003/06 a 2013/16.
- ^v Ffigurau o Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, cyfartaledd tair blynedd 2013/16
- ^{vi} Ffigurau o Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, cyfartaledd tair blynedd ar gyfer 1994/97 a 2013/16.
- ^{vii} Tunstall, R. et al (2013) *The links between housing and poverty* Llundain: Sefydliad Joseph Rowntree
- ^{viii} Mae'r ffigurau o "Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), ar 31 Mawrth 2016", cyhoeddiad blynyddol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru.
- ^{ix} *UK Poverty: causes, costs and solutions*, ibid.
- ^x Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r Arolwg Deall Cymdeithas, 2009-10 a 2014-15.
- ^{xi} Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r Arolwg Deall Cymdeithas, 2009-10, 2011-12 a 2013-14.
- ^{xii} *UK Poverty: causes, costs and solutions*, ibid.
- ^{xiii} Finney, N. et al (2015) *How are poverty, ethnicity and social networks linked?* Llundain: Sefydliad Joseph Rowntree.
- ^{xiv} *UK Poverty: causes, costs and solutions*, ibid.
- ^{xv} Finney et al, ibid.
- ^{xvi} Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r Arolwg Deall Cymdeithas, 2009-10, 2011-12 a 2013-14.
- ^{xvii} Improving lives, helping workless families (2017) Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/621364/improving-lives-helping-workless-families-web-version.pdf
- ^{xviii} Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r Arolwg Deall Cymdeithas, 2009-10, 2011-12 a 2013-14.
- ^{xix} *UK Poverty: causes, costs and solutions*, ibid.
- ^{xx} Mae'r ffigurau yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r Arolwg Adnoddau Teuluol, 2006/07, 2011/12 a 2015/16.
- ^{xxi} UK Poverty 2017 JRF
- ^{xxii} Mothers suffer big long-term pay penalty from part-time working. IFS.
<https://www.ifs.org.uk/publications/10364>